

<b>CYFARFOD</b>	<b>Cabinet Cyngor Gwynedd</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>9 Tachwedd, 2021</b>
<b>AELOD CABINET</b>	<b>Cynghorydd Cemlyn Rees Williams</b>
<b>SWYDDOG</b>	<b>Gwern ap Rhisiart</b>
<b>TEITL YR EITEM</b>	<b>Strategaeth Digidol Addysg</b>

## **Y Penderfyniad a geisir**

Gofynnir i'r Cabinet:

- a) Gymeradwyo'r Strategaeth Digidol Addysg yn ei chyfanrwydd
- b) Gytuno i fod yn cyd ariannu hyd at hanner costau adnewyddu dyfeisiadau gyda disgwyliad i ysgolion dalu'r hanner arall.
- c) Gytuno i ysgolion Gwynedd dderbyn cefnogaeth dechnegol gan wasanaeth Technoleg Gwybodaeth yr Awdurdod o Ebrill 2022 ymlaen
- d) Gytuno i ariannu cefnogaeth dechnegol hyd at Ebrill 2022 er mwyn prysuro amserlen cyflwyno dyfeisiadau i'r ysgolion.

## **Cefndir**

1. Yn sgil diwygio'r cwricwlwm mae cymhwysedd ddigidol yn gyfrifoldeb statudol ar draws pob maes dysgu ac mae angen ei ystyried ym mhob agwedd wrth ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Nid gweledigaeth y dyfodol yw dysgu digidol, dyma yw'r presennol ac oni bai ein bod yn cynllunio camau positif i gyflwyno darpariaeth ddigidol o'r safon uchaf ac yn gyson drwy'r system addysg, byddwn yn byw â darpariaeth sy'n addas i'r gorffennol yn unig.
2. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cefnogaeth ariannol i wella'r defnydd o dechnoleg ddigidol ar gyfer addysgu a dysgu mewn ysgolion. Fe gyhoeddwyd cylch cyntaf y buddsoddiad ar 19eg Gorffennaf, 2019 gyda £50miliwn i'w rannu rhwng y 22 Awdurdod Lleol yn 2019/20 a hyd at £55miliwn pellach ar gael yn ystod y dair mlynedd nesaf.
3. Cyhoeddwyd Safonau Digidol ar gyfer y maes Addysg gan y Llywodraeth yn Ebrill 2019. Cyfres o argymhellion a chanllawiau am gynllunio, rheoli a defnyddio rhwydwaith technoleg gwybodaeth ysgol yw'r safonau. Mae'r safonau yn cynorthwyo ysgolion i ddeall, rheoli a gweithredu eu hamgylchedd ddigidol. Amlygir ynddynt sut y dylai ysgolion sicrhau bod eu hamgylchedd ddigidol yn un sy'n diwallu anghenion cwricwlwm ysgol ac sy'n rhoi mwy o sylw i sgiliau digidol at y dyfodol. Mae'n ddisgwyliad gan y Llywodraeth i awdurdodau lleol gynnig cyngor a chyfarwyddyd i ysgolion ar sut i gyflawni'r safonau hyn.
4. Mae'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth wedi cychwyn ers cyn cyfnod y pan demig. Yn ystod y cyfnodau estynedig lle'r roedd ysgolion ar gau i ddysgu wyneb yn wyneb gwelwyd cynnydd sylweddol mewn defnydd ysgolion o dechnoleg. Amlygwyd bryd hynny yr angen am strategaeth addysg ddigidol gyda anghysondeb mewn profiadau yn deillio o diffyg buddsoddiad mewn dyfeisiadau addas i blant ac athrawon ynghyd ag anghysondeb mewn hyder a sgiliau ein gweithlu addysg.

## **Strategaeth Digidol Addysg**

5. Bwriad y strategaeth addysg digidol yw rhoi'r ddarpariaeth ddigidol orau i gefnogi ein dysgwyr a'n hathrawon i feithrin ystod o sgiliau i ddefnyddio technoleg yn hyderus, creadigol ac yn feirniadol gyda chysondeb yn y ddarpariaeth ar draws ysgolion y Sir.

6. Mae'r strategaeth yn amlygu ei uchelgais o ddefnyddio technoleg i wella addysg i ddysgwyr yn ysgolion Gwynedd ac yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol gan ddyrchafu ein gallu i gefnogi pob rhan o'r cwricwlwm.

7. Byddwn yn gwybod fod y strategaeth yn llwyddiannus pan fo;

- *Dim rhwystrau technegol a fyddai'n ffrwyno dychymyg ein athrawon wrth iddynt gynllunio gwersi i'n dysgwyr.*
- *Dyfeisiadau addas ar gael i gefnogi dysgu digidol.*
- *Profiadau disgyblion, athrawon, cymorthyddion a chymuned lawn yr ysgol yn gyson dda.*
- *Hyfforddiant addas yn y maes dysgu digidol ar gael i bawb.*
- *Cynnydd mesuradwy mewn sgiliau digidol yng Ngwynedd.*
- *Ysgolion yn cyflawni Safonau Digidol Addysg.*
- *Cefnogi'r iaith Gymraeg a'n cymunedau drwy baratoi ein dysgwyr ar gyfer swyddi yn y sector ddigidol.*
- *Pob ysgol yn gwneud defnydd llawn o lwyfan dysgu cenedlaethol Hwb.*
- *Cysondeb mewn profiadau dysgu digidol drwy Wynedd.*
- *Gwerth am arian yn y maes digidol i ysgolion Gwynedd.*
- *Rhwydwaith yn cefnogi a galluogi addysgu digidol heddiw ac i'r dyfodol.*
- *Model ariannu cynaliadwy mewn lle.*

8. Mae'r strategaeth ar gyfer pob ysgol, disgybl, staff ac aelodau o gymuned ysgolion Gwynedd. Drwy'r strategaeth byddwn yn darparu dyfais i un ymhob pedwar disgybl yn y Cyfnod Sylfaen, un yr un i bob dysgwr o flwyddyn 3 i flwyddyn 11 ac i bob athro neu athrawes.

9. Mae'r strategaeth yn gosod yr uchelgais o fod profiadau disgyblion, athrawon, cymorthyddion a chymuned yr ysgol yn gyson dda ar draws y sectorau.

Bydd gan bob athro/athrawes yng Ngwynedd;

- ddyfais cludadwy personol fydd yn caniatáu mynediad cyflym i'r cwmwl drwy rwydwaith di-wifr yr ysgol neu unrhyw rwydwaith di-wifr arall
- y gallu i baratoi a gweithio o gartref
- fynediad at systemau'r ysgol a systemau gwybodaeth disgyblion yn yr ysgol a'u cartref
- fynediad at hyfforddiant a datblygiad proffesiynol addas i bwrpas
- gyfrif Hwb a fydd yn caniatáu iddynt gael mynediad at ystod eang o adnoddau dysgu
- fynediad at lungopiwr cyflym
- e-bost swyddogol
- fynediad at gyfrif hunan wasanaeth Cyngor Gwynedd

Mae profiad disgyblion o dechnoleg yn newid a datblygu, gyda'r hyn y maent ei angen o ran caledwedd a meddalwedd yn esblygu fel bo technoleg yn aeddfedu a gofynion y cwricwlwm yn newid. Fodd bynnag bydd rhai ffactorau a fydd yn aros yn gyson. Bydd pob disgybl yn cael;

- profiad o ddefnyddio gwahanol dechnoleg, megis dyfeisiadau Windows, Google Chromebook ac Apple
- mynediad i ddyfais a fydd yn caniatáu mynediad cyflym a diogel i'r cwmwl drwy rwydwaith di-wifr yr ysgol
- y gallu i astudio a dysgu o gartref
- cyfrif Hwb a fydd yn caniatáu iddynt gael mynediad at ystod eang o adnoddau dysgu
- cyfrifi e-bost a fydd yn caniatáu iddynt gyfathrebu o fewn cylch cyfyngedig a thu hwnt yn unol â chanllawiau'r ysgolion unigol
- mynediad o bell i adnoddau dysgu

10. Argymhellir y dylid mabwysiadu'r strategaeth yn ei chyfanrwydd gan ategu uchelgais y Cyngor dros addysg ddigidol o ansawdd a chysondeb traws sirol yn y maes allweddol hwn.

## Costau adnewyddu dyfeisiadau

11. Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar gyflenwad sylweddol o ddyfeisiadau ar gyfer disgyblion ac athrawon yn ysgolion Gwynedd, gan ddefnyddio adnoddau grant sydd ar gael gan y Llywodraeth i dalu amdano yn y lle cyntaf.
12. Mae'r grant gan Lywodraeth Cymru yn amodol ar sicrhau cyllideb i adnewyddu'r offer pan ddaw i ddiwedd ei oes. Gyda hyd oes dyfais oddeutu 5 mlynedd amcangyfrifir y bydd y gofyn i adnewyddu yn dilyn y proffil canlynol;

2024/25	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29
£489,837	£1,452,937	£1,091,693	£422,415	£427,630

13. Golyga hynny, erbyn y cylch nesaf o adnewyddu fydd yn cychwyn yn 2024/25, ac ar sail prisiau presennol, bydd angen cronfa o £3.9m i adnewyddu'r offer.
14. Mae nifer o opsiynau wedi ei hystyried ar gyfer cyfarch y costau adnewyddu gan gynnwys;
  - Gofyn i ysgolion dalu am adnewyddu fel rhan o delerau'r cynllun
  - Gweithredu toriad ar gyllideb ysgolion er mwyn talu amdano
  - Y Cyngor i ariannu'r gost fel rhan o'r broses bidiau blynyddol

15. Bu i'r adran addysg gasglu barn ysgolion ar eu gallu i gyfrannu tuag at gostau adnewyddu y cynllun. Er fod yr ysgolion yn unfrydol gefnogol i'r strategaeth roedd nifer o'r ysgolion yn nodi nad ydynt yn medru cyfrannu tuag at gostau cynaliadwyedd y cynllun heb gymorth.
16. Argymhellir y dylai fod disgwyliad i ysgolion dalu hanner y gost drwy agor cronfa adnewyddu a chan nodi bod modd iddynt sicrhau arian priodol yn y Gronfa honno ym mha bynnag ffordd y dymunant (drwy gyfraniad o falansau'r ysgolion ar ddiwedd blwyddyn, drwy neilltuo cyllideb barhaol yn eu cyllidebau, neu drwy ffynonellau eraill.
17. Gofynnir i'r Cabinet gytuno i fod yn cyd ariannu hanner arall y gost drwy gyfraniad refeniw blynyddol.

## Cynnal a Chadw

18. Mae'n allweddol fod cefnogaeth effeithiol i'r ddarpariaeth ddigidol newydd fydd yn cael ei fewnosod gan barhau i gefnogi darpariaeth hanesyddol sydd eisoes yn yr ysgolion am rhyw hyd.

Ni ddylai unrhyw ddisgybl yng Ngwynedd gollu unrhyw addysg oherwydd problemau technegol. Dylai dyfeisiadau sydd yn peidio a gweithio gael eu trwsio oddi fewn amser derbyniol gyda dyfais dros dro yn cael ei ddarparu'n cyn gynted a bod modd os nad yw'n bosib cywiro'r sefyllfa yn y fan a'r lle.
19. Mae'n anodd rhagdybio'r galw am wasanaeth gan fod yr hyn a gynhigir drwy'r strategaeth yn dra wahanol i'r hyn sy'n cael ei gefnogi'n barod, a ran ystod y dyfeisiadau a'r isadeiledd sydd wedi eu lleoli yn yr ysgolion. Mae gwaith ymchwil yn dangos nad oes un model neu gyfradd technegydd i blentyn y gellid ei ddefnyddio fel ffordd o ragdybio'r galw am wasanaeth. Mae cynnydd yn nifer y dyfeisiadau a gefnogir o dan y model newydd, ond ar y llaw arall mae'n dymuniad i ffurfioli a chysoni'r profiad o un ysgol i'r llall yn debygol o leihau'r galw.
20. Gellid rhagdybio y bydd y galw am wasanaeth o'r sector gynradd yn llai na'r sector uwchradd, hyn gan fod athrawon a disgyblion yn symud o un dosbarth i'r llall yn yr uwchradd ac fe all hyn arwain at fwy o heriau.
21. Mae pob ysgol gynradd yn llwyr ddibynnol ar wasanaeth cwmni Cynnal tra bo ychydig dros hanner ein ysgolion uwchradd yn cyflogi technegydd yn lleol yn ychwanegol i'r cytundeb craidd gan Cynnal. Mae un ysgol uwchradd wedi dewis peidio a cytuno i'r cytundeb craidd gan gwmni Cynnal ond maent yn derbyn cefnogaeth SIMS.

22. Yn ddiweddar mae'r pryderon a'r cwynion am wasanaeth Cynnal wedi cynyddu ar draws yr holl sectorau. Mae'r materion wedi ei codi yn y grwpiau ymgynghorol ac mae Cynnal yn derbyn e byst rheolaidd gan ein ysgolion yn amlygu'r heriau.
23. Yn gyffredinol mae'r ysgolion yn cydymdeimlo efo sefyllfa'r technegwyr ac yn canmol eu ymroddiad i'r gwaith. Nid yw'r model cefnogaeth wedi esblygu dros amser ac o ganlyniad mae'r gwasanaeth yn delio a nifer sylweddol o alwadau gyda'r mwyafrif ohonynt yn alwadau o fethiant. Mae hyd at 25% o amser technegwyr yn mynd ar deithio o ysgol i ysgol.
24. Mae Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor eisoes yn cefnogi rhwydweithiau ysgolion a nifer cynyddol yn derbyn gwasanaeth teleffoni erbyn hyn.
25. Argymhellir dylai ysgolion Gwynedd dderbyn cefnogaeth gan Wasanaeth Technoleg Gwybodaeth yr Awdurdod. Mae'r gwasanaeth wedi llunio cynllun a fyddai'n esblygu dros y 4 blynedd nesaf. Mae'r model yn cynnwys mewnloli technegwyr sydd eisoes yn gweithio oddi mewn i'r sector uwchradd.

Blwyddyn 1	Blwyddyn 2 a 3	Blwyddyn 4
Strwythur canolog fydd yn gosod gweithdrefnau a ffurfweddiad newydd ar gyfer gliniaduron disgyblion ac athrawon, prosiectau mudo o drefniadau lleol a gwasanaeth sy'n ymgysylltu'n barhaus gyda'r ysgolion. Trefniadau lleol yr ysgolion (technegwyr) ddim yn newid yn ystod y flwyddyn gyntaf. Cost blwyddyn 1 yn £1,013,059.	Gyda trefniadau newydd wedi gwreiddio, ragwelir y bydd manteision darpariaeth unffurf a symud oddi wrth drefniadau lleol yn dod yn amlwg. Golyga hyn y bydd modd newid y patrwm cefnogi drwy lunio hybiau cefnogi ar draws y Sir, gyda'r rhain wedi eu lleoli yn ein ysgolion uwchradd. Bydd modd cwtogi'r nifer sydd yn y rôl hyn, gan ddileu swyddi presennol y technegwyr a chreu 7 swydd newydd. Byddwn hefyd yn cwtogi'r nifer sydd ar y rheng flaen gan rannu'r ddarpariaeth hon rhwng y technegwyr a'r Ddesg Gwasanaeth.  Y newid arall yw lleihau nifer o'r swyddogion galluogi digidol o 3 i 2 gan bydd pwysau a gofynion ychwanegol yn nyddiau cynnar yn llai wedi sefydlogi'r ddarpariaeth. Cost blwyddyn 2 a 3 £846,704	Rhesymoli ym mhellach gan leihau'r nifer o swyddogion technegol yn y tîm canolog o 11 i 9 gan fanteisio ar drefniadau cefnogi sydd wedi aeddfedu, ond yn cyflwyno swydd newydd i gwrdd a gofynion diogelwch seibr. Cost blwyddyn 4 £808,223

26. Mae costau cyfredol gwasanaeth Cynnal a technegwyr oddi fewn yr ysgolion uwchradd yn £830,635 y flwyddyn. Rhagwelir y byddai angen cefnogaeth ychwanegol o £182,944 yn y flwyddyn gyntaf, £16,069 yn yr ail a thrydedd flwyddyn ac erbyn blwyddyn pedwar, fe fydd y gefnogaeth yn £22,412 y flwyddyn yn rhatach. Erbyn diwedd blwyddyn 5 fe fyddai'r model newydd wedi costio £170,258 yn fwy, ond erbyn diwedd blwyddyn 10 byddai wedi arbed cyfanswm o £58,200.
27. Fe fyddai cyfeirio ysgolion Gwynedd i dderbyn cefnogaeth gan wasanaeth Technoleg Gwybodaeth yr Awdurdod ag oblygiadau pellgyrhaeddol i Gwmni Cynnal. Fe fyddai'r penderfyniad yn effeithio ar hyfywedd y cwmni i wasanaethu ysgolion mewn Awdurdodau eraill.

### Cefnogaeth Dechnegol yn y Tymor Byr

28. Mae ychydig dros 6000 o ddyfeisiadau wedi ei rhannu ag ysgolion cynradd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r dyfeisiadau yma'n cael eu cefnogi gan un technegydd oddi mewn i'r gwasanaeth corfforaethol gyda chydweithrediad y gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth a Chwmni Cynnal.
29. Bwriedir cyflwyno ychydig dros 1,000 o liniaduron i'r athrawon a 4,000 ar gyfer disgyblion yn y sector uwchradd fel rhan o roi'r strategaeth ddigidol ar waith a gan ddefnyddio'r buddsoddiad grant sydd wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

30. Mae oblygiadau cefnogi i unrhyw ddyfais ychwanegol a gyflwynir a ni allwn amsugno'r galw ychwanegol yma oddi fewn ein strwythurau cefnogi cyfredol. Gofynnir am gefnogaeth ariannol ychwanegol i roi tîm cefnogaeth at eu gilydd mewn paratoad i fod yn cefnogi'r ysgolion yn llawn ar Ebrill 1af, 2022.
31. Byddai angen cefnogaeth o £230,000 i gyflwyno strwythur cefnogi o Ragfyr hyd diwedd Mawrth, ond gan y bydd Cwmni Cynnal yn parhau i gefnogi'r ddarpariaeth hanesyddol yn yr ysgol, byddai modd cyflwyno strwythur llai am y cyfnod trosiannol. Y gefnogaeth a geisir i gyflwyno'r strwythur dros dro byddai swm un tro o £148,000 gan roi llwyfan gadarn i gyflwyno'r strategaeth ddigidol.

### Asesiad Cydraddoldeb

32. Mae'r asesiad cydraddoldeb yn amlygu na fydd gweithredu'r strategaeth ddigidol yn effeithio ar gydraddoldeb, boed yn nodweddion neu ddyletswydd gyffredinol.
33. Rhagwelir y bydd y strategaeth addysg ddigidol yn cryfhau agweddau cydraddoldeb oherwydd y bydd yn sicrhau mynediad i bawb at addysg ddigidol, yn enwedig y rhai ac o gefndiroedd llai breintiedig.
34. Gweithredir polisiau cydraddoldeb cadarn ar draws ysgolion Gwynedd ac fe fydd rhain yn parhau i gael eu gweithredu.

### Asesiad Llesiant

35. Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf Llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf Llesiant ac amcanion Llesiant y Cyngor a deuir i gasgliad fod y strategaeth yn cwrdd â'r gofynion. Bydd y strategaeth hwn yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw tra'n hefyd cryfhau eu Llesiant i'r dyfodol.
36. Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau cyfle teg i bob un o blant Gwynedd gaffael sgiliau digidol rhagorol, sgiliau hanfodol ar gyfer y dyfodol.

---

### Barn y swyddogion statudol

**Y Swyddog Monitro:** Bydd mabwysiadu y Strategaeth yn cynrychioli newid sylfaenol yn y ddarpariaeth ddigidol a chyd berthynas y Cyngor a'r ysgolion yn y maes yma. Mae'r argymhellion hefyd yn gydnaws ac amodau yr ariannu sydd wedi ei ddarparu gan Llywodraeth Cymru ar gyfer y newid yma. Mae cydnabyddiaeth hefyd y bydd y penderfyniadau yma yn golygu oblygiadau ail strwythuro o amgylch y ddarpariaeth gyfredol law yn llaw a chynyddu y capasiti mewnol i ddarparu yr gwasanaeth. Mae hyn yn destun adroddiad pellach cysylltiedig.

**Y Pennaeth Cyllid:** Bu i'r Cabinet fabwysiadu'r strategaeth mewn egwyddor ym Medi 2020, gan ohirio penderfyniad i'w fabwysiadu'n llawn tan bod eglurder o'r ymrwymiad ariannol. Bellach, fel mae'r adroddiad yn datgan, rydym yn ymwybodol o'r ymrwymadau hyn a byddai'n briodol i'r Cabinet fabwysiadu Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd cyn belled bod cytundeb ar ysgwyddo'r costau ychwanegol.

Wedi i ni dderbyn y grant sylweddol gan Lywodraeth Cymru er mwyn buddsoddi yn y cyfarpar gwreiddiol i'n disgyblion, mae'n anorfod fod rhaid darganfod adnoddau parhaol gan y Cyngor ar gyfer cost adnewyddu'r cyfarpar (roeddem ym ymwybodol o hynny pryd ddaru'r Cabinet fabwysiadu'r strategaeth mewn egwyddor y llynedd a penderfynu derbyn y grant). Er mwyn i holl ddisgyblion Gwynedd gael manteisio ar ddysgu digidol eleni, rhaid rhoi ystyriaeth briodol i'r cais am gyllido digonol.

Yn yr amgylchiadau anarferol yma, yn amodol ar i'r ysgolion arwyddo i fyny i ysgwyddo hanner cost adnewyddu'r cyfrifiaduron, byddai'r Cabinet yn gallu symud £2m rhwng cronfeydd i sefydlu cronfa adnewyddu i gyhwyn

cynllunio'r gwaith a amlinellir yn y tabl ym mharagraff 12. Os bydd y Cabinet yn cadarnhau'r flaenoriaeth drwy benderfyniad ar hyn rŵan, byddwn yn cynllunio yn briodol ar ei gyfer.

Ymhellach, rwy'n gwerthfawrogi'r angen i gynyddu capasiti TG mewnol y Cyngor i ddarparu cefnogaeth i'r ysgolion, a mae'n synhwyrol bod y tîm yma'n cael ei sefydlu cyn gynted a phosib. Gallai'r Cabinet ariannu'r gofyn am £148,000 o arian un-tro o'r Gronfa Trawsffurfio, a gyda'r buddsoddiad hwn byddai'r Gwasanaeth mewnol yn medru cychwyn ar y gwaith o gyflwyno gliniaduron i'r athrawon a'r disgyblion uwchradd.

#### **Atodiadau**

**Atodiad 1** Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd

**Atodiad 1** Asesiad Cydraddoldeb

**Atodiad 3** Asesiad Llesiant